

CYNGOR BRO MORGANNWG
GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A
LLWYTHO A MANNAU PARCIO)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 8) 2022

1. Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn a fydd yn rhoi'r cyfyngiadau parcio a nodir yn yr atodlenni isod ar waith, ac yn eu diwygio.
2. Gellir gweld manylion llawn y cynigion, gan gynnwys copi o'r Gorchymyn arfaethedig a Chynlluniau Rhif T/22/35/ON ar wefan y Cyngor yn www.valeofglamorgan.gov.uk/legalnotices ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a allai fod gennych i'r cynnig hwn i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf. IF956) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk erbyn **dydd Gwener 19 Awst 2022** ac mae'n rhaid cynnwys eich rhesymau dros wrthwynebu.
3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn arfaethedig.

Mae'r Gorchymynion Rheoleiddio Traffig canlynol i gael eu diwygio fel a ganlyn:

Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio (Gorfodi Sifil) 2013

Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu Mannau Aros a Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 10) 2017

ATODLEN

Ham Lane East, Llanilltud Fawr

Dirymu Gwahardd Aros o ddydd Llun i ddydd Gwener 8am-9am a 3pm-4pm, a rhoi'r Gwaharddiad ar Aros, Llwytho a Dadlwytho yn ei le o ddydd Llun i ddydd Gwener 8am-9:30am a 2:30pm-4pm. Mewnosod i fap AU24

Ar ochr y gorllewin o bwynt 15 metr o'r gyffordd â Boverton Road, tua'r de-orllewin am oddeutu 75 metr.

Dirymu Gwahardd Aros o ddydd Llun i ddydd Gwener 8am-9am a 3pm-4pm, a rhoi'r Gwaharddiad ar Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Adeg yn ei le. Mewnosod i fap AU24

Ar ochr y dwyrain o bwynt 15 metr o'r gyffordd â Boverton Road am ryw 40 metr tua'r de-orllewin.

Dirymu Gwahardd Aros o ddydd Llun i ddydd Gwener 8am-9am a 3pm-4pm, a rhoi'r Gwaharddiad ar Stopio yn ei le o ddydd Llun i ddydd Gwener 8am-5pm. Mewnosod i fap AU24

Ar ochr y dwyrain o bwynt 55 metr o'r gyffordd â Boverton Road am ryw 44 metr tua'r de-orllewin.

Dirymu Gwahardd Aros o ddydd Llun i ddydd Gwener 8am-5pm a rhoi'r Gwaharddiad ar Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Adeg yn ei le. Mewnosod i fapiau AU24, AV23, ac AV24.

Ar ochr y dwyrain o bwynt 107 metr o'r gyffordd â Boverton Road am ryw 13 metr tua'r de-orllewin.

Ar ochr y dwyrain o bwynt 5 metr o'r gyffordd â mynediad maes parcio Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr am ryw 35 metr tua'r de-orllewin.

Ar ochr y dwyrain o bwynt 5 metr o'r gyffordd â'r mynediad i gerbydau i faes parcio Canolfan Hamdden Llanilltud Fawr am ryw 25 metr tua'r de-orllewin.

Ar ochr y dwyrain o bwynt 26 metr o'r gyffordd â mynediad maes parcio Ysgol y Ddraig am ryw 23 metr tua'r de-orllewin.

Ar ochr y gorllewin o bwynt 107 metr o'r gyffordd â Boverton Road am bellter o tua 13 metr i'r de-orllewin.

Cynnig Gwahardd Llwytho a Dad-lwytho ar Unrhyw Adeg Mewnosod i fapiau AU24, AV23, ac AV24.

Ar ochr y de, o'r gyffordd â Boverton Road tua'r de-orllewin am oddeutu 15 metr.

Ar ochr y de o bwynt 120 metr o'r gyffordd â Boverton Road am bellter o tua 30 metr tua'r de-orllewin.

Ar ochr y dwyrain o'r gyffordd â mynediad maes parcio Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr am ryw 5 metr tua'r de-orllewin.

Ar ochr y dwyrain o bwynt 40 metr o'r gyffordd â mynediad maes parcio Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr am ryw 25 metr tua'r de-orllewin.

Ar ochr y dwyrain o bwynt 150 metr o'r gyffordd â mynediad maes parcio Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr am ryw 10 metr tua'r de-orllewin, ac yna'r de-ddwyrain.

Ar ochr y dwyrain o'r gyffordd â mynediad maes parcio Canolfan Hamdden Llanilltud Fawr am ryw 5 metr tua'r gorllewin ac yna tua'r de-orllewin.

Ar ochr y dwyrain o bwynt 30 metr o'r gyffordd â'r mynediad i faes parcio Canolfan Hamdden Llanilltud Fawr am ryw 33 metr tua'r de-orllewin.

Ar ochr y dwyrain o'r gyffordd â mynediad maes parcio Ysgol y Ddraig am ryw 26 metr tua'r gorllewin ac yna tua'r de-orllewin.

Ar ochr y gorllewin o'r gyffordd â Boverton Road tua'r de-orllewin am oddeutu 15 metr.

Ar ochr y gorllewin o bwynt 120 metr o'r gyffordd â Boverton Road, tua'r de-orllewin am oddeutu 90 metr.

Ar ochr y gorllewin, o'r gyffordd ag Illtyd Avenue am oddeutu 10 metr tua'r de-ddwyrain ac yna tua'r de-orllewin.

Ar ochr y gorllewin o bwynt 130 metr o'r gyffordd ag Illtyd Avenue am oddeutu 10 metr tua'r de-orllewin ac yna tua'r gogledd-orllewin.

Cynnig Gwahardd Aros, Llwytho a Dad-lwytho ar Unrhyw Adeg Mewnosod i mewn i fap AV23.

Ar ochr y gorllewin o bwynt 120 metr o'r gyffordd ag Illtyd Avenue tua'r de-orllewin am oddeutu 10 metr.

Cynnig Gwahardd Aros a Llwytho – dydd Llun i ddydd Gwener 8am-5pm. Mewnosod i fapiau AU24, AV23, ac AV24.

Ar ochr y dwyrain o bwynt 65 metr o'r gyffordd â mynediad maes parcio Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr am ryw 85 metr tua'r de-orllewin.

Ar ochr y gorllewin o bwynt 10 metr o'r gyffordd â Fitzhamon Avenue tua'r de-orllewin am oddeutu 55 metr.

Lon-Od-Nant, Llanilltud Fawr

Cynnig Gwahardd Aros, Llwytho a Dad-lwytho ar Unrhyw Adeg Mewnosod i mewn i fap AV24.

Ar ochr y gogledd-ddwyrain, o'r gyffordd â Ham Lane East tua'r de-ddwyrain am oddeutu 10 metr.

Dyddiedig 28 Gorffennaf 2022.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai

Cyngor Bro Morgannwg, Depo'r Alpau, Gwenfô CF5 6AA